**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: CG/PO/22/2024

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y caiff Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Darpariaeth) 2023 ("y Rheoliadau") eu gosod gerbron Senedd y DU ar 24 Ionawr 2024.

Derbyniodd swyddogion fersiwn derfynol o'r Rheoliadau i'w hadolygu ar 18 Ionawr.

Mae'r Rheoliadau yn gymysgedd o ddarpariaeth wedi'i datganoli ac wedi'i chadw yn ôl ac nid yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru.

Ar ôl adolygu'r diwygiadau canlyniadol a awgrymir, nid ydym yn credu y byddai'n fwy priodol cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain. Mae'r Rheoliadau ond yn gwneud darpariaeth ganlyniadol a ddaw trwy adrannau 2 a 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Nid yw'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ehangach ar bolisi ac nid oes disgresiwn polisi yn cael ei arfer mewn meysydd datganoledig yn y Rheoliadau. Yng ngoleuni hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol rhoi caniatâd i'r Rheoliadau hyn gynnwys darpariaeth ddatganoledig.

Byddaf yn rhyddhau datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau parodrwydd Llywodraeth Cymru i gydsynio i'r Rheoliadau o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod yn ffurfiol.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.